| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2011** |
| **TEITL** | **YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2010, mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2011. Fel rhan o'r adolygiad yma mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa a chydag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

**1.2** Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2010, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ar y polisïau canlynol:

- dylai'r enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na gilt fod yn 1.4% (sef yr un fath ag yr oedd ym mhrisiad 2007);
- cadw at 20 mlynedd fel cyfnod ar gyfer adfer diffyg y cyrff statudol a 15 mlynedd ar gyfer Coleg Menai a Choleg Llandrillo;
- Ymestyn y cyfnod ar gyfer rhannu codiadau cyfraniadau'r cyflogwyr tros chwe blynedd ar gyfer yr achosion hynny lle bo'r cynnydd yn y prisiad dros 1.5% ond os rhoddir cyfleustra o'r fath y dylid sicrhau codiad o leiaf 0.5% y flwyddyn tan gyrraedd y codiad llawn.

**1.3** Ar 14 Rhagfyr 2010, gyrrwyd llythyr ymgynghorol allan i bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU a'r GMB, yn ymgynghori ar y tri pholisi a nodir yn 1.2 uchod. Gofynnwyd iddynt ymateb gydag unrhyw sylwadau erbyn 28 Ionawr 2011.

**2. Yr Ymateb a Gafwyd**

**2.1** Derbyniwyd un ymateb i’r ymgynghoriad fel a ganlyn:
Cyngor Tref Abergele
“Mewn cyfarfod diweddar y Cyngor penderfynwyd cyfeirio’r mater i Is-bwyllgor ymgynghori a bydd y Cyngor mewn sefyllfa i ymateb i’ch llythyr yn dilyn trafodaeth ar y mater.”

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

**3. Dyfodol Aelodaeth o’r Cynllun**

**3.1** Yn dilyn y cyfnod ymgynghori mae rhai cyflogwyr wedi nodi eu bod nhw’n ystyried dyfodol i’w aelodaeth o’r gronfa. Bydd angen newid y DSC os yw cyflogwyr unigol yn penderfynu newid neu derfynu eu haelodaeth. Nodir hyn yn Atodiad A ar dudalen 18 o’r DSC.

**3.2** Mae copi o’r Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig yn Atodiad A. Yr unig newid o’r fersiwn a gafodd ei gyflwyno i’r pwyllgor hon ar 3ydd Rhagfyr 2010 a danfonwyd i’r cyflogwyr yn cael ei esbonio yn rhan 3.1 uchod.

**4. Argymhelliad**

**4.1** Bod y Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig (yn Atodiad A) yn cael ei fabwysiadu.